

RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod Rhithwir y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 21 Mehefin, 2021

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 24 Mehefin, 2021. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 1 Gorffennaf, 2021. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 2 Gorffennaf, 2021.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R G Parry OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Bryan Owen, Dafydd Roberts.

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr R. Meirion Jones a Ieuan Williams

(10:00 y.b. tan 11:25 y.b.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Cofnodion Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2021 fel rhai cywir.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Amherthnasol
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Amherthnasol
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Amherthnasol
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Amherthnasol
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Pennaeth Gwasanaethau Democraidd
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddarau am y cyfnod o fis Gorffennaf, 2021 i fis Chwefror, 2022, fel y'i cyflwynwyd.

RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 Monitro'r Cerdyn Sgorio - Chwarter 4 2020/21 Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Trawsnewid
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd - <ul style="list-style-type: none"> Derbyn adroddiad monitro'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 4, 2020/21, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol a derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir yn yr adroddiad. Cofnodi diolchiadau a gwerthfawrogiad y Pwyllgor Gwaith o ymdrechion a gwaith caled holl weithlu'r Cyngor dros y flwyddyn 2020/21 wrth gynnal perfformiad tra'n ymateb i bandemig Covid 19.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Adnabod meysydd sy'n tanberfformio o fewn y Cyngor
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 4, 2020/21 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
------------------------	---

PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r sefyllfa a ddisgrifir yn Atodiadau A a B yr adroddiad o ran perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2020/21. • Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2020/21 y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad. • Nodi sefyllfa'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH yr adroddiad. • Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2020/21 yn Atodiad D yr adroddiad • Nodi monitro costau asiantaethau ac ymgynghori ar gyfer 2020/21 yn Atodiadau DD, E ac F yr adroddiad. • Bod llythyr yn cael ei anfon ar ran y Pwyllgor Gwaith at Weinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru i ofyn am arweiniad ynghylch cynlluniau ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol am y 3 blynedd nesaf er mwyn cynorthwyo cynghorau i gynllunio'n fwy strategol am y tymor canol.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Monitro perfformiad Cyllideb Refeniw 2020/21
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 Alldro Cyfalaf 2020/21 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi sefyllfa alldro ddrafft Rhaglen

	<p>Gyfalaf 2020/21 sy'n destun archwiliad, a</p> <ul style="list-style-type: none"> Chymeradwyo cario ymlaen £11.898m i 2021/22 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriant. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei gario ymlaen i 2021/22 fel ym mharagraff 4.3 o Atodiad A yr adroddiad ac yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 o £48.065m.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Monitro perfformiad Cyllideb Gyfalaf 2020/21.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 Monitro'r Gyllideb CRT – Aildro 2020/21 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r sefyllfa mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2021.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Monitro perfformiad Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus 2000 Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) a'r
------------------------	--

	Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd –</p> <ul style="list-style-type: none"> Nad yw'r Awdurdod yn codi ffi teithio ar ddisgyblion anstatudol a myfyrwyr Addysg Bellach Môn am y flwyddyn academaidd 2021/22. Fod yr Awdurdod yn cyfyngu'r hawl dim ond i'r pellter statudol ar gyfer 2021/22. Fod y Cyngor yn buddsoddi mewn system electroneg er mwyn rheoli pa ddysgwyr sydd yn gymwys ar gyfer teithio ar fws ysgol fel yn rhan FF yr adroddiad; mae'r Pwyllgor Gwaith yn cytuno i ariannu'r cerdiau mewn egwyddor ac yna i gynllun gael ei ddatblygu yn ystod blwyddyn ysgol 2021/22.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Ymateb i effaith Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Cyhoeddus 2000 ar werthu seddi gwag ar gludiant ysgol
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

EITEM GYFRINACHOL

RHIF YR EITEM A'R PWNC	11 Cynllun Adfywio (hen safle ysgol a Llyfrgell Caergybi) Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd bwrw ymlaen yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Hwyluso adfywio cyn safle'r ysgol a'r llyfrgell, Caergybi.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI	Dim

ROI?	
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes